Meini Prawf Cymhwyster Cymorth Cynllunio Cymru



Lefelau cymhwyster

Lefel 1 - Gwybodaeth

Tirfeddianwyr domestig sydd am ddatblygu, a phobl sydd ddim yn ymwybodol o'r system gynllunio ac a hoffai gymryd rhan.

Lefel 2 - Cyngor

Trydydd parti sydd yn dymuno mynegi eu safbwyntiau ar gais cynllunio neu gynllun datblygu, busnesau gyda phump neu lai o weithwyr, a chynghorau cymuned a thref.

Lefel 3 - Cefnogaeth

Grwpiau cymuned a gwirfoddol, pobl yn dioddef rhagfarn oherwydd oedran, hil, cenedligrwydd, iaith, anabledd, rhyw, rhywioldeb neu gefndir cymdeithasol, neu unrhywun sydd methu ag ymrwymo yn y system gynllunio oherwydd rhwystrau dysgu neu iaith.

Esbonio cymhwyster

Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n darparu gwahanol lefelau o wasanaeth i gleientiaid yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Adolygir ein meini prawf yn flynyddol a mabwysiadwyd y meini prawf newydd, symlach yn Ionawr 2008. Cynigiwn dair lefel o wasanaeth i'n cleientiaid:

Gwybodaeth
Yn cynnwys disgrifiad o'r rhan berthnasol yn y broses gynllunio, cyfeirio ymlaen at lenyddiaeth canllaw berthnasol neu restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig.

Cyngor
Yn cynnwys helpu cleientiaid i ddatblygu strategaethau a dadleuon i ddelio gyda materion cynllunio a thramwyo'r system gynllunio.

Cefnogaeth
IYn cynnwys cynrychioli cleientiaid, cysylltu â sefydliadau cysylltiedig, cwblhau gohebiaeth a ffurflenni fel bo'n briodol, a helpu paratoi ymatebion i geisiadau cynllunio.

Y rhai na allwn helpu

Ni all Cymorth Cynllunio Cymru helpu'r bobl ganlynol:

- Ymgynghorwyr cynllunio, penseiri, asiantwyr ac ati.
- Busnesau masnachol maint canolog i fawr.
- Unigolion neu grwpiau sy'n debygol o elwa o unrhywbeth mwy na datblygiad bach yn eu tŷ.
- Rheiny sydd ag incwm i dalu am ymgynghorwr cynllunio.

Cyfeirir unrhywun nad sy'n gymwys i gael ein gwasanaethau cyngor a chefnogaeth at restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, neu at lenyddiaeth canllaw perthnasol am help pellach.